


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU ar Microsoft Teams am 19.00 nos Fawrth Ionawr 25 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Aled Griffith, Ian Wyn Jones, Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Jason Humphreys

Roedd Y Cadeirydd, Cyng Llywelyn Rhys wedi ymddiheuro am ei absenoldeb ac yn gobeithio ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach. Roedd Cyng Selwyn Griffiths wedi cytuno i gymryd y Gadair yn ei le. Cytunwyd i ganiatau i'r Clerc recordio'r cyfarfod.

1. Ymddiheuriadau :- Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Nia Jeffreys

2. Cae Pawb

Roedd y Clerc wedi rhannu lluniau o blot rhif 42 ar 1.1.22 yn dangos cyflwr truenus y plot yn dilyn glaw trwm. Cytunwyd nad oedd y plot yn addas i gael ei rentu. Darllenwyd ebost a dderbyniodd y Clerc gan Hannah Lodge, Ysgrifenyddes Cymdeithas Cae Pawb, yn rhestru dymuniadau, awgrymiadau a gwybodaeth am rai o'r plotiau. Roedd y Clerc wedi darparu atebion i rai o gwestiynau Hannah Lodge a rhoddwyd caniatâd iddi yrru'r ymateb i Hannah Lodge. Bydd yn llythyru'r tenantiaid maes o law. Cytunwyd na ddylid rhannu copïau o llythyrau Rhybudd a llythyrau Gwahardd gan mai llythyrau swyddogol y Cyngor Tref ydynt a bod eu cynnwys yn fater preifat rhwng y Cyngor Tref a'r tenant. Ynglyn â'r awgrym i osod y plot cymunedol - oherwydd cyflwr truenus plot 42 **penderfynwyd** y dylid diddymu'r plot yma a symud y tenantiaid i'r plot cymunedol sydd mewn llawer gwell cyflwr, yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio. Cytunwyd hefyd mai'r Clerc – ar ran y Pwyllgor Eiddo – sydd â'r hawl i ddsbarthu plotiau ac y dylid cadw at y drefn sydd wedi ei sefydlu sef 'y cyntaf i'r felin', drwy roi'r plot gwag cyntaf i'r sawl sydd ar ben y rhestr aros.

3. Cae Bodawen

Roedd y Clerc wedi derbyn dyfynbris am fflagiau i'w gosod ar drofan Bodawen.

Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Llawn ar 8.2.22 gytuno i symud ymlaen i brynu'r fflagiau yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

4. Bryn Coffa

Dim sylw.

5. Llwybrau

- Cytunwyd i basio Cynnig Cyng Aled Griffith – Cais i lanhau ochrau ac ysgubo llwybr Lon Haearn Bach (Cyt) o Borthmadog i Dremadog ymlaen i raglen Cyfarfod Llawn 8.2.22
- Roedd y Clerc yn dal i aros am ymateb gan Gwmni Gwalch i gais am ddyfynbris torri gwair a llwybrau.
- Cytunwyd y dylai'r Clerc hysbysebu yn Yr Wylan am dendrau torri gwair ar gyfer eleni.

6. Llochesi Bws

Bydd ymateb gan Aldi i'r cais i osod lloches ar eu tir nhw yng ngohebiaeth Cyfarfod Llawn 8.2.22.


7. Cerflun Mr. Maddocks

Dim sylw.

Marian Roberts

26.1.22

CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL Ar Microsoft Teams am 7 yn nos Fawrth Ionawr 25 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Aled Griffith, Ian Wyn Jones, Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Jason Humphreys

Roedd Y Cadeirydd, Cyng Llywelyn Rhys wedi ymddiheuro am ei absenoldeb ac yn gobeithio ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach. Roedd Cyng Selwyn Griffiths wedi cytuno i gymryd y Gadair yn ei le. Cytunwyd i ganiatau i'r Clerc recordio'r cyfarfod.

1.Ymddiheuriadau :- Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Nia Jeffreys

2. Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Ionawr 18 2022 ynghlwm).

Penderfynwyd derbyn y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

3.Penderfynu ar gyflogi'r hebogwr eleni

Cytunwyd fod y Cyngor Tref wedi bod yn rhy hwyr yn y flwyddyn yllnedd yn cyflogi'r hebogwr a bod angen gweithredu ynghynt yn y flwyddyn cyn i'r gwylanod ddechrau nythu er mwyn elwa o'i wasanaeth.

Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Llawn ar 8.2.22 gyntuno i ail gyflogi'r hebogwr eleni yn ôl cynnig Cyng Ian Wyn Jones, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

4.Adolygu trefniadau Nadolig 2021 a sefyllfa goleuadau Nadolig

Cytunwyd y bydd angen gwario'n sylweddol i wella darpariaeth goleuadau Nadolig. Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan R.J.Electrics i ebost gan y Clerc ar 11.12.21 oedd yn rhestru'r goleuadau oedd yn ddiffygiol, yn manylu ar y problemau trydanol. Roedd y Clerc yn disgwyl cael adroddiad mwy manwl a chynwysfawr ganddo ar gyflwr y goleuadau Nadolig a gobeithir ei dderbyn yn fuan er mwyn ei gynnwys yng ngohebiaeth Cyfarfod Llawn 8.2.22 er mwyn trafod ymhellach.

5. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais / Application No.: C22/0022/44/DT (wedi ebostio 18.1.22)

Lleoliad: Chantilly's, 1 Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UB

Bwriad : Addasiadau i dŷ annedd presennol gyda estyniad deulawr ochr / cefn

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod nesaf o'r Gweithgor Datblygu ar Microsoft Teams am 19.00 nos Fawrth , Chwefror 1af. Bydd y Clerc yn hysbysu'r aelodau perthnasol trwy ebost.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.40

Marian Roberts

26.1.22

